Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

11 Chwefror 2019

Annwyl Lynne

Yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror, cytunodd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r cylch gorchwyl ar gyfer ymchwiliad sbotolau ar iechyd meddwl ym maes plismona a dalfa'r heddlu.

Bydd yr ymchwiliad yn canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (ac eraill), i atal pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhag cael eu rhoi yn nalfa'r heddlu, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y driniaeth briodol tra yn y ddalfa, ac er mwyn helpu i sicrhau y darperir y lefel briodol o gymorth wrth adael y ddalfa.

Rwy'n ysgrifennu er mwyn tynnu eich sylw at yr ymchwiliad hwn, o ystyried ei berthnasedd i gylch gwaith eich Pwyllgor chi, ac yn benodol y gwaith rydych wedi'i wneud mewn perthynas ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl Ifanc.

Yn gywir

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565